

Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014–15

Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd
Port Talbot

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif feysydd lle bu cynnydd
a'r meysydd lle mae angen gwella yng Ngwasanaethau
Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
ar gyfer y flwyddyn 2014–15

Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2014-2015

Awdurdod **Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot**
Lleol:

Mae'r adroddiad hwn yn trafod gwerthusiad AGGCC o berfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wrth gyflenwi ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

1. Crynodeb

- 1.1. Yn ystod 2014-2015 mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi parhau i ailffurfio'i wasanaethau, er mwyn ymateb i bwysau ariannol a gweithrediad y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), sy'n parhau i ysgogi gwelliant a darparu'r cyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau. Mae gwasanaethau cymdeithasol wedi parhau i drawsffurfio, gydag ymroddiad cadarn i atal ac ymyrryd yn gynnar, â'r nod o gynorthwyo pobl i fod yn annibynnol ac i gael eu cynnwys yn gymdeithasol a lleihau dibyniaeth ar wasanaethau. O fewn gwasanaethau cymdeithasol i oedolion mae rhaglen ailfodelu a thrawsffurfio'r cyngor yn hanfodol i'r gwaith o weithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae'n parhau i gwblhau'r gwaith yn gyflym, gan ganolbwyntio ar wireddu'r newid mewn arferion a diwylliant. Mae'r cyngor wedi rhoi cynllun gweithredu ar waith a fydd yn ategu egwyddorion gwaelodol 'Mwy Na Geiriau'.
- 1.2. Mae'r cyngor yn parhau i fod yn realistig ynglŷn â'r heriau sy'n cael eu gosod gan yr angen i wella gwasanaethau wrth wynebu gostyngiadau cyllidol. Mae datblygu strategaethau comisiynu a datganiadau sefyllfa'r farchnad o fewn gwasanaethau i blant a gwasanaethau i oedolion wedi rhoi diffiniad gwell i'r cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu gwasanaethau. Mae ymroddiad corfforaethol y cyngor i anghenion plant a phobl ifanc yn thema gyffredin sydd i'w gweld ym mhob un o flaenoriaethau'r cyngor Mae diogelwch, iechyd, annibyniaeth a lles pobl hŷn sy'n agored i niwed hefyd yn flaenoriaethau allweddol yng nghynllun y cyngor. Mae'r cyngor wedi bod yn rhagweithiol wrth yrru'r agenda ar gyfer atal ac ymyrryd yn gynnar yn ei gontractau gyda'r trydydd sector a darparwyr annibynnol.
- 1.3. O fewn gwasanaethau i blant, mae tystiolaeth o arweinyddiaeth weithredol, gyda'r cyfarwyddwr, pennaeth y gwasanaeth a'r prif swyddogion i gyd yn cael effaith gadarnhaol ar y broses o nodi blaenoriaethau clir, sydd wedi cynnwys systemau, prosesau – ac yn fwy pwysig, sefydlogrwydd y gweithlu. Mae'r uwch reolwyr wedi llwyddo i gyflwyno diwylliant didwyll a heriol, gyda staff ar bob lefel yn mynegi eu cefnogaeth i'r dulliau sydd bellach yn cael eu defnyddio i weithredu arferion.

- 1.4. Yn ym mis Tachwedd 2012, gwnaed Gwasanaethau Plant Castell-nedd Port Talbot yn destun protocol pryderon difrifol AGGCC. Ers hynny, mae arolygiadau pellach a threfniadau monitro chwarterol wedi bod ar waith er mwyn asesu cynnydd yr awdurdod lleol wrth gyflawni ei gynllun gwella strategol. Cynhaliodd AGGCC arolygiad ym mis Chwefror 2015, a oedd yn ystyried a oedd digon o gynnydd wedi'i wneud i geisio gwella ansawdd a chysondeb gwasanaethau i blant a phobl ifanc sydd ag angen cymorth neu ddiogelwch. Yn sgil cynnydd cyson codwyd y protocol ym mis Mai 2015.

2. Yr ymateb i'r meysydd i'w gwella a nodwyd y llynedd

Gwelliannau a nodwyd y llynedd	Cynnydd yn 2014-2015
Datblygu a chomisiynu modelau gofal a chymorth amgen yn barhaus, er mwyn cefnogi canlyniadau'r rhaglen llwybrau i annibyniaeth.	Mae rhagor o opsiynau ar gyfer llety wedi'u datblygu trwy landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Gweithredu cynllunio sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a fydd yn dylanwadu ar y farchnad. Trefniadau partneriaeth cryf gyda darparwyr er mwyn datblygu gwasanaethau sy'n seiliedig ar gynnydd. Datblygu darpariaeth sy'n cynnwys pob anabledd a darpariaeth arbenigol.
Cysoni'r rhaglen foderneiddio â threfniadau ar gyfer asesu ac adolygu, er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu defnyddio gwasanaethau mewn modd sy'n diwallu eu hanghenion asesedig, a bod y profiad cystal â'u disgwyliadau.	Mae rhaglen 'Peopletoo' wedi cael ei chomisiynu'n ddiweddar er mwyn ymgymryd â'r gwaith o wella arferion a gwneud newidiadau diwylliannol. Bydd y gwaith yma'n cwmpasu'r maes hwn i wella.
Dylai'r gwaith o gysoni trothwyon sy'n cael ei gwblhau gan Bartneriaeth y Teulu'n Flaenaf gael ei ddiffinio a'i gyfleu yn eglur.	Mae trothwyon wedi cael eu diffinio a'u cysoni er mwyn sicrhau bod ymyriadau ar y lefel briodol, a bod gwasanaethau gwahanol yn croestorri yn effeithiol o amgylch teuluoedd.
Datblygu strategaethau comisiynu gyda phartneriaid i ffurfio a chefnogi darpariaeth gwasanaethau sy'n diwallu anghenion plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed ac sydd	Mae uned gomisiynu gyffredin wedi cael ei sefydlu. Mae strategaeth cymorth i deuluoedd wedi cael ei datblygu yn sgil ymgynghori â staff,

ag anghenion cymhleth.	partneriaid a grŵp gorchwyl a gorffen.
Parhau i fonitro a gwerthuso prosesau yn y porth cymunedol.	Mae adolygiad cynhwysfawr yn mynd rhagddo gyda rhaglen 'Peopletoo' ynglŷn ag ystwythder cynaliadwyedd, cynhwysedd digidol a rheoli galw wrth y drws ffrynt, gan gynnwys cysylltiadau â phrosiectau cymunedol yn ymwneud â gofal sylfaenol ac ehangu'r gwasanaeth.
Sicrhau bod gwybodaeth gyhoeddus ar draws pob gwasanaeth yn parhau i gael ei adolygu a'i ddiweddarau trwy gyfrwng y rhaglen gorfforaethol sy'n ymwneud â'r gallu defnyddio gwasanaethau.	Mae'r wefan yn cael ei datblygu. Mae prosiect cynhwysedd digidol wedi cael ei sefydlu.
Datblygu dull mwy effeithiol o gyfathrebu ar gyfer gofalwyr.	Mae gwaith ar dudalen we ar gyfer sylwadau cwestiwn ac ateb yn mynd rhagddo. Mae rhif ffôn a chyfeiriad e-bost canolog yn cael eu hyrwyddo.
Mae angen arweiniad pellach ar weithwyr cymdeithasol ynglŷn ag ystyried risg a sut mae gwybodaeth a gesglir yn cael ei dilysu a'i chofnodi.	Mae hyfforddiant pellach ar Fframwaith Cymryd Risgiau Cadarnhaol wedi cael ei weithredu fel rhan o adolygiad 'Peopletoo'. Gwerthuso effeithiolrwydd a'r defnydd o'r Fframwaith Cymryd Risgiau Cadarnhaol trwy archwiliad/cwestiwn ac ateb. Mae canllawiau ar asesu risg wedi cael eu cyflwyno i staff mewn cyfarfodydd tîm, ac mae hyfforddiant ffurfiol wedi cael ei gynnal gan arbenigwr allanol. Mae dulliau asesu risg diwygiedig wedi cael eu defnyddio er mwyn dangos a mesur cynnydd yn ôl cynlluniau gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.
Sefydlu trefniadau ar unwaith i archwilio cysylltiadau nad ydynt yn arwain at atgyfeiriadau, ac atgyfeiriadau nad ydynt yn arwain at unrhyw gamau gweithredu yn dilyn asesiad cychwynnol.	Mae cydlynwyr lleol wedi cael eu recriwtio a fydd yn dargyfeirio ac yn tynnu sylw at ailatgyfeiriadau. Mae system gweithgarwch yn cael ei datblygu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae dangosfwrdd wedi cael ei greu sy'n monitro gweithgarwch. Mae rhaglen archwilio fisol yn adlewyrchu trefniadau ar

	gyfer monitro cysylltiadau nad ydynt yn arwain at atgyfeiriadau, ac asesiadau cychwynnol sy'n dod i'r casgliad nad oes angen camau pellach.
Parhau i ganolbwyntio'n fanwl ar waith i hyrwyddo asesiadau o ansawdd cyson.	Mae fframwaith sicrhau ansawdd sy'n archwilio pob system gofnodi. Mae'r cyngor wedi datblygu set o ddulliau archwilio sy'n cwmpasu'r amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir.
Sicrhau bod y system adolygu'n adlewyrchu canlyniadau pecynnau cymorth, er mwyn hyrwyddo annibyniaeth a nodi canlyniadau.	Mae'r broses adolygu wedi cael ei hailfodelu ar sail daearyddiaeth, ac mae unigolyn wedi cael ei glustnodi i fod yn gyfrifol am sicrhau bod canlyniadau'n cael eu trosglwyddo. Mae systemau sy'n seiliedig ar gyfryngau yn cael eu peilota.
Dylai'r cyngor wella darpariaeth asesiadau amserol er mwyn pennu cymhwysedd pobl sydd ag anabledd dysgu i dderbyn gofal a chymorth gan wasanaethau.	Mae'r ddarpariaeth hon wedi cael ei hailstrwythuro er mwyn cynnwys pob math o anabledd. Mae dangosfwrdd wedi cael ei ddatblygu er mwyn nodi gweithgarwch ac amseroldeb.
Sicrhau bob pob tîm yn cyfrannu at y fframwaith sicrhau ansawdd.	Mae fframwaith sicrhau ansawdd wedi cael ei weithredu. Mae'r cyngor wedi sefydlu tîm datblygu perfformiad, ansawdd ac arferion. Mae hefyd wedi penodi rheolwr perfformiad, ansawdd ac arferion, swyddogion cwynion a swyddog ymgysylltu a chyfranogi.
Parhau i fonitro amseroldeb asesiadau.	Mae fframwaith ar gyfer blaenoriaethu ymatebion wedi cael ei ddatblygu. Bydd yn rhaid treialu hwn a'i adolygu ar ffurf 'cynllunio, gwneud, astudio a gweithredu'. Mae wedi ei gysylltu ag adolygiad 'Peopletoo'.
Terfynu ymchwiliadau diogelu, gan sicrhau bod pob asiantaeth yn cwblhau ei chamau gweithredu o fewn yr amserlenni y cytunir arnynt.	Nid yw ymchwiliadau diogelu'n cael eu terfynu nes bod pob cam gweithredu wedi'i gwblhau. Mae hyn yn cael ei fonitro trwy'r broses archwilio.

Codi ymwybyddiaeth o fewn y sector darparwyr o Drefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.	Mae rhaglen o hyfforddiant ymwybyddiaeth wedi cael ei chynnal, ac mae hon yn eitem sefydlog mewn fforymau ar gyfer darparwyr.
Cefnogi'r gwaith o gynnig asesiad i ofalwyr a chofnodi'r hyn sy'n cael ei ddarparu.	Mae'r wybodaeth hon yn cael ei choladu yn y gronfa ddata. Mae cynlluniau i godi niferoedd y gofalwyr sy'n cael asesiad wedi cael eu dyfeisio, ac mae'r broses asesu newydd yn coladu ac yn adolygu'r wybodaeth hon.
Codi ymwybyddiaeth o fewn gwasanaethau i blant o rôl gofalwyr ifanc a'r gwasanaeth mae'r gwasanaeth i ofalwyr yn ei ddarparu.	Mae cyd-fanyleb wedi cael ei llunio gyda'r tîm o gwmpas y teulu er mwyn cynorthwyo gofalwyr ifanc, gyda chyllid ychwanegol yn gysylltiedig er mwyn cefnogi'r fenter hon. Mae safbwyntiau a dymuniadau gofalwyr ifanc bellach yn cael eu casglu gan y tîm datblygu perfformiad, ansawdd ac arferion.
Ystyried effaith y trefniadau cyllido presennol ar y gwasanaeth i ofalwyr.	Mae pob partner yn cyfrannu at y trafodaethau presennol ynglŷn â chytundeb ar lefel y gwasanaeth, a hyd y cyllid, mewn cydweithrediad â'r gwasanaeth.
Bydd yn rhaid i'r cyngor, gyda'i bartner ym maes iechyd, ystyried yr heriau sy'n wynebu ei wasanaeth iechyd meddwl yn sgil gweithredu Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.	Mae Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) yn cael ei fonitro trwy wybodaeth a gesglir mewn archwiliadau gan Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â rhan un i ran tri. Mae grwpiau monitro wedi cael eu sefydlu.
Cysondeb ac ansawdd y broses oruchwylio mewn gwasanaethau i blant.	Mae'r rhaglen archwilio fisol yn adlewyrchu trefniadau ar gyfer monitro cysondeb ac ansawdd goruchwyliaeth.
Gwerthuso effeithiolrwydd hyfforddiant staff ar arferion gwaith.	Mae hyn yn cael ei fonitro trwy bolisiâu goruchwylio gan reolwyr tîm, trwy'r panel sicrhau ansawdd a thrwy archwilio. Manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd dysgu a datblygu mewn perthynas ag amddiffyn plant a chynllunio gofal, yn ogystal â'u hintegreiddio i gyfarfodydd goruchwylio a chyfarfodydd tîm. Mae hyn yn cael ei ategu gan gynlluniau dysgu unigol blynyddol ar

	gyfer pob aelod o staff, er mwyn sicrhau bod gofynion datblygu a hyfforddi unigol yn cael eu nodi, eu dadansoddi a'u bodloni.
--	---

3. Ymweliadau ac arolygiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn

- 3.1. Mae ymweliadau â safleoedd yn rhoi cyfle i AGGCC siarad â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'u teuluoedd, yn ogystal â'r staff sy'n rheoli ac yn gweithio yn y gwasanaethau. Yn ystod 2014-2015, ymwelwyd â'r safleoedd canlynol:
- Tîm y porth
 - Rhwydweithiau cymunedol
 - Y tîm cyswllt – oedolion
 - Canolfan sgiliau galwedigaethol
 - Safle Ysbyty Cilma
 - Llys y Seren.
- 3.2. Cynhaliodd AGGCC hefyd arolygiad o wasanaethau plant Castell-nedd Port Talbot ym mis Chwefror 2015. Yn ystod y broses arolygu, gwnaethom gwrdd â phlant, teuluoedd, partneriaid yn y gweithlu a rhanddeiliaid. Arsylwyd nifer o arferion gan gynnwys adroddiadau ar blant sy'n derbyn gofal.
- 3.3. Roedd arolygiad gan AGGCC o'r gwasanaethau maethu'n gadarnhaol, gan nodi bod cymorth effeithiol yn cael ei ddarparu gan dîm sefydlog a chyson.
- 3.4. Mae AGGCC wedi llwyddo i gynnal ei rhaglen o arolygiadau rheolaidd o wasanaethau a reoleiddir sy'n gweithredu yn ardal Castell-nedd Port Talbot.
- 3.5. Mae cyfarfodydd ymgysylltu chwarterol gydag uwch swyddogion y cyngor wedi cael eu cynnal. Mae'r rhain wedi cael eu defnyddio er mwyn adolygu perfformiad gwasanaethau cymdeithasol, a thrafod cynnydd yn y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr adroddiad y llynedd.
- 3.6. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd AGGCC gamau dilynol yn unol â'r

argymhellion a wnaed yn yr arolygiad o gynllunio diogelu a gofal y cyngor ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal ac sy'n dangos ymddygiad agored i niwed neu ymddygiad peryglus. Nodwyd 16 maes o arfer da a gofynnwyd i'r cyngor ystyried 21 maes i'w gwella, sydd wedi cael eu datblygu'n gynllun gweithredu. Mae'r cyngor wedi ymateb mewn ffordd dda, ac yn gwneud cynnydd da yn y camau gweithredu a nodwyd yn ei gynllun.

4. Meysydd y bydd AGGCC yn gwneud gwaith dilynol arnynt y flwyddyn nesaf

- 4.1. Nodwyd nifer o feysydd penodol i'w gwella yng nghorff yr adroddiad hwn. Bydd cynnydd y cyngor mewn perthynas â'r rhain yn cael ei drafod â'r cyngor yn ystod cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd yn ystod y flwyddyn nesaf. Bydd meysydd penodol ar gyfer camau dilynol yn cynnwys:
- Parhau i gyflwyno newidiadau i'r gwasanaeth er mwyn paratoi ar gyfer y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)
 - Y gwaith cydweithredol a gynhaliwyd mewn perthynas â Phartneriaeth Gofal Iechyd Western Bay
 - Datblygu gwasanaethau i blant yn ôl y cynllun gweithredu

5. Cynllun arolygu ac adolygu AGGCC ar gyfer 2015-2016

- 5.1. Mae AGGCC hefyd yn cynnal yr arolygiadau thematig canlynol, ac mae'n bosibl y bydd gwasanaethau Castell-Nedd Port Talbot yn cael eu dewis ar gyfer gwaith maes:
- Adolygiad cenedlaethol o ofal cartref
 - Adolygiad cenedlaethol o wasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu
 - Adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

6. I ba raddau mae'r profiadau a'r canlyniadau ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth yn gwella eu lles?

Oedolion

Trosolwg

- 6.1. Mae'r cyngor yn ymateb i atgyfeiriadau mewn ffordd gyson, deg ac amserol. Mae datblygiad tîm integredig y Porth Cymunedol fel man cyswllt cyffredin ar gyfer pob gwasanaeth gofal cymdeithasol i oedolion, a phob gwasanaeth iechyd cymunedol wedi'i hen sefydlu. Mae'r porth yn defnyddio'r broses asesu integredig sy'n galluogi staff o amrywiaeth o ddisgyblaethau i dargedu gwasanaethau ac i ymateb mewn ffordd briodol. Mae adborth gan arolygwyr yn cadarnhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn fodlon ar drefniadau'n cyngor ar gyfer y cyswllt cyntaf. Mae'r ffigurau perfformio gwell ar gyfer y gyfradd o oediadau wrth drosglwyddo gofal – 3.21 ar gyfer pob 1,000 o bobl sydd dros 75 oed, yn tystio bod gwasanaethau gofal canolraddol wedi cael eu llawn integreiddio yn y tîm adnoddau cymunedol, a bod y broses o reoli iechyd tymor hir a gofal cymdeithasol pobl hŷn wedi cael ei hintegreiddio yn y rhwydweithiau cymunedol.
- 6.2. Mae pwyslais parhaus ar gryfhau'r cyfleoedd ar gyfer atal ac ymyrryd yn gynnar, er mwyn i bobl fanteisio i'r eithaf ar annibyniaeth, hyrwyddo eu llesiant a'u galluogi i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Mae mentrau megis prosiect 'Agosach i Gartref, a chartref preswyl Llys y Seren ym Mhort Talbot yn dystiolaeth o'r pwyslais hwn. Mae hon yn uned ac iddi ddeg gwely, wedi'i chyd-gomisiynu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg er mwyn darparu gwasanaeth ail-alluogi preswyl. Mae ymweliadau safle gan AGGCC wedi nodi cydweithio ardderchog rhwng partneriaid sy'n galluogi pobl i ddychwelyd i'w cartrefi eu hunain yn hytrach na symud i ofal preswyl.
- 6.3. Mae gan y cyngor arweinyddiaeth strategol gref, ac mae'n gweithio'n dda gyda Bwrdd Diogelu Oedolion Western Bay, sydd wedi darparu llywodraethiant ac arolygiaeth effeithiol ar gyfer y cyngor, er mwyn gweithredu trefniadau diogelu cadarn ar gyfer oedolion sy'n agored i niwed yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae gwersi a ddysgwyd yn sgil ymchwiliad gan yr ombwdsmon wedi cael eu dosbarthu i weithlu'r cyngor ac i asiantaethau partner allweddol. Gwelodd AGGCC dystiolaeth o hyn trwy fynychu'r cyfarfod ar gyfer rhanddeiliaid. Mae dulliau asesu risg wedi cael eu hymgorffori o fewn arferion, ac mae ymatebion prydlon ac effeithlon i atgyfeiriadau ynglŷn ag amddiffyn oedolion a gwaith amlasiantaethol yn parhau i fod yn amlwg. Er mwyn sicrhau prosesau asesu cadarn, amlasiantaethol sy'n arwain at wneud penderfyniadau clir, mae hyfforddiant wedi cael ei ddarparu ar gyfer pob rheolwr arwain dynodedig, ac mae dull cyfannol o ddiogelu'n cael ei ddefnyddio trwy ddefnyddio'r fforwm diogelu lleol. Mae arolygwyr yn cadarnhau bod effeithiolrwydd ac amseroldeb yr ymateb i bryderon ynglŷn â diogelu gan y tîm wedi amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed yn well. Mae hyn wedi arwain i barhau'r arfer o reoli risg mewn 100% o atgyfeiriadau ynglŷn ag amddiffyn oedolion.

- 6.4. Fel gydag awdurdodau eraill, mae'r cyngor wedi gweld cynnydd dramatig yn nifer y ceisiadau o dan Drefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, yn sgil dyfarniad 'Gorllewin Swydd Gaer' gan y Goruchaf Lys – o bump yn 2013-2014 i 444 yn 2014-2015. Mae'r cyngor yn gweithio gyda phob darparwr gan gadarnhau ei fod yn deall ei gyfrifoldeb fel awdurdod rheoli, gan sicrhau prosesau clir ar gyfer adolygiadau a rheoli ceisiadau gan ddarparwyr. Mae'r cyngor wedi cyfuno ei waith diogelu a'i gapasiti ar gyfer Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn un tîm, sydd wedi bod yn fuddiol wrth gydlyn ymatebion gan y swyddogaethau cysylltiedig hyn. Yn ogystal, mae gwasanaethau eiriolaeth effeithiol, wedi'u darparu gan Mental Health Matters, wedi cael eu comisiynu ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.
- 6.5. Yn sgil comisiynu'r gwasanaeth i ofalwyr i gynnal asesiadau gofalwyr ar ran y cyngor, mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer yr asesiadau a gafwyd. Mae cynnydd o 20% yn 2013-2014 i 40% yn 2014-2015 yn dangos y berthynas gadarnhaol rhwng y cyngor a'r darparwr. Mae hyn hefyd wedi cael ei gryfhau trwy gynnwys gweithiwr y gofalwr yn y tîm adnoddau cymunedol, sy'n sicrhau bod asesiadau a chymorth yn amserol ac yn effeithiol.
- 6.6. Cydnabyddir bod amseroldeb yr adolygiadau'n dal i fod yn her. Gostyngodd nifer y cleientiaid a gafodd adolygiad o'u hanghenion yn ystod y flwyddyn o 82% yn 2013-2014 i 79% yn 2014-2015. Mae cryn dipyn o waith wedi'i gyflawni ynglŷn ag ansawdd yr adolygiadau, ac mae cynllun gweithredu wedi cael ei lunio er mwyn rhoi sylw i amseroldeb. Bydd AGGCC yn monitro'r maes hwn yn 2015.
- 6.7. Mae strwythurau rheoli wedi cael eu rhesymoli, ac mae system fonitro ymweliadau electronig wedi'i rhoi ar waith o fewn darpariaeth gofal cartref fewnol y cyngor. Ar hyn o bryd mae'r cyngor yn darparu 30% o'i ddarpariaeth gofal cartref yn fewnol, a 70% trwy gomisiynu darparwyr allanol. Yn ystod rhan ddiweddaraf y flwyddyn roedd y cyngor yn wynebu sefyllfa heriol ar ôl i ddarparwr gofal cartref lleol mawr fynd i'r wal. Gwnaeth y cyngor nodi'r broblem, ymgynghori mewn modd effeithiol ac amserol â'i randdeiliaid a'i bartneriaid, a sicrhau bod gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n agored i niwed yn cael eu trosglwyddo i'r darparwr newydd mewn ffordd gyson a diogel.
- 6.8. Mae protocol pontio wedi cael ei ddatblygu er mwyn osgoi oediadau wrth ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl sydd bron â bod yn oedolion. Mae achosion yn cael eu monitro gan y grŵp olrhain a chynllunio amlasiantaethol er mwyn sicrhau nad oes oediadau wrth ddyrannu gofal. Ar hyn o bryd mae'r cyngor wrthi'n recriwtio gweithiwr cymdeithasol ymgynghorol i weithio rhwng y tîm oedolion

a'r tîm plant, i reoli'r achosion mwyaf cymhleth yn ogystal â darparu cyngor a chymorth ar gyfer y timau. Un o brif elfennau'r swydd hon yw adnabod pobl ifanc sydd angen cael eu trosglwyddo i wasanaethau i oedolion, er mwyn sicrhau trosglwyddiad mwy esmwyth, gyda chymorth wedi'i dargedu yn cael ei ddarparu ar gyfer pobl ifanc a'u teuluoedd.

- 6.9. Mae pobl yn elwa ar drefniadau cadarn ar gyfer comisiynu a chaffael gwasanaethau trwy gontractau ar eu rhan, gan fod y cyngor wedi gwneud cynnydd cadarnhaol yn y gwaith o gontractio a chaffael gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yn rhanbarthol. Yn ogystal, mae'r cyngor wedi cael ei gydnabod gan asiantaethau partner fel yr awdurdod arweiniol ym maes comisiynu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Trwy ddatblygu uned gomisiynu gyffredin, mae alinio agos rhwng y systemau adolygu gwaith cymdeithasol ac adolygu gwasanaethau, comisiynu, contractio a chaffael a datblygu ac adolygu gwasanaethau. Mae cyd-asesu a monitro contractau gyda staff nyrsio Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, lle bo hynny'n briodol, wedi'i hen sefydlu yn y cartrefi gofal. Mae'r cyngor yn chwarae rôl allweddol mewn gwaith rhanbarthol trwy brosiect 'Agosach i Gartref', sy'n adolygu ac yn ail-gomisiynu gwasanaethau ar gyfer pobl sydd ag anghenion cymhleth, yn amrywio o wasanaethau preswyl i wasanaethau byw â chymorth. Mae pennaeth y Gymuned a Chomisiynu'r cyngor yn arwain ym maes gwella ansawdd cartrefi gofal ac uwchgyfeirio pryderon ar draws y rhanbarth.
- 6.10. Mae'r cyngor yn parhau i weithredu dull cadarn o reoli ei bartneriaeth gyda Grŵp Gwalia, ac agorwyd y cyntaf o bedwar cartref gofal newydd yn haf 2014. Mae bwrdd llywodraethu contractau ffurfiol yn cwrdd yn chwarterol er mwyn goruchwyllo gwaith sy'n cael ei wneud gan nifer o is-grwpiau. Mae gwaith y grŵp hwn yn canolbwyntio ar reoli perfformiad a safonau ansawdd, datblygu tai newydd, gwasanaethau newydd a materion gweithredol. Mae dealltwriaeth y cytunir arni bod y model ar gyfer gofal preswyl tymor hir ar drai, ac mae angen dull mwy hyblyg o weithredu. Mae'r cyngor wedi ymgymryd ag adolygiad ffurfiol o gontractau, sy'n cynnwys datblygu asesiad gyda phwyslais pendant a mwy o gapasiti ail-alluogi preswyl o fewn y ddarpariaeth breswyl arfaethedig.
- 6.11. Mae'r cyngor wedi llawn weithredu ei fodel er gyfer moderneiddio cyfleoedd yn ystod y dydd, gan gyflawni nifer o brosiectau cyflogaeth â chymorth, a phrosiectau hyfforddi er mwyn cynorthwyo pobl wrth iddynt ddod o hyd i gyflogaeth hirdymor. Trwy ymweliadau â safleoedd canolfannau cymdeithasol lleol, mae AGGCC wedi gweld dulliau newydd ac arloesol o ddarparu gwasanaeth ar sail gofal a

chymorth, a hybu annibyniaeth lle bo hynny'n briodol. Er bod y darpariaethau hyn bellach yn ariannu eu hunain, bydd model annibynnol o ddarpariaeth amgen megis menter gymdeithasol yn cael ei harchwilio yn ystod y flwyddyn nesaf.

Blaenoriaethau cenedlaethol allweddol (oedolion)

Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar

- 6.12. Mae'r gwasanaeth ataliol ac ymyrraeth gynnar a leolir yng Nghanolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cilma yn cynnwys ail-alluogi cymunedol, therapi galwedigaethol cymunedol, cymorth synhwyrdd a thimau clinigol a arweinir gan ymarferydd nyrsio. Mae'r tîm yn atal derbyniadau i'r ysbyty ac yn hwyluso rhyddhau yn gynnar trwy raglen ail-alluogi sy'n amrywio o bedair i chwe wythnos. Mae nifer y bobl sy'n cael eu rhoi mewn cartrefi gofal wedi gostwng yn sgil comisiynu'r uned ail-alluogi breswyl, Llys y Seren, ehangu'r tîm clinigol aciwt a mabwysiadu dull amlddisgyblaethol y 'Porth Cymunedol'.
- 6.13. Mae taliadau uniongyrchol yn cael eu hyrwyddo a'u cefnogi ar draws pob maes yn y gwasanaeth, gan roi mwy o reolaeth a mwy o hyblygrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth, wrth iddynt ddewis eu cymorth a'u gofal. Adolygodd y cyngor ei gontract ar gyfer taliadau uniongyrchol, ac arweiniodd hyn at ail-gomisiynu'r gwasanaeth. Mae polisi newydd ar gyfer dyrannu seibiannau byr wedi cael ei weithredu er mwyn sicrhau tegwch ar draws pob gwasanaeth. Yn ogystal, mae cyfleuster gofal seibiant o'r radd flaenaf yn Nhrem y Môr yn darparu gwasanaeth ar gyfer pobl sydd ag anableddau iechyd meddwl ac anableddau corfforol yn ogystal ag anableddau dysgu. Mae trosglwyddo i'r model hwn yn dystiolaeth bod diwylliant ac arferion y cyngor wedi newid, i ddull sy'n cynnwys pob math o anabledd, ac sy'n seiliedig ar angen yn hytrach na diagnosis. Mae arolygwyr sydd wedi ymweld â'r lleoliad wedi nodi adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd a staff.
- 6.14. Arweiniodd adolygiad y cyngor o systemau ac arferion gwaith cymdeithasol at fodel newydd ar gyfer arferion gwaith cymdeithasol, sy'n hyrwyddo perthynas dda a deialog â phobl ar sail cryfderau. Mae'r model hwn yn galluogi'r gwasanaeth i ddeall pa sgiliau ac adnoddau sydd ar gael i bobl a fydd yn eu galluogi i gyrraedd eu nod. Gall y rhain gynnwys adnoddau cymunedol, teulu a ffrindiau. Er mwyn gweithredu'r model hwn bydd angen gwneud newidiadau sylweddol i sut mae staff yn cynnal asesiadau, rheoli gofal a chynnal adolygiadau.

Integreiddio gofal iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn ag

anghenion cymhleth.

- 6.15. Un maes lle bu datblygiad sylweddol gan y cyngor yw ei lwyddiant wrth weithredu gwasanaeth gofal canolraddol, integredig llawn sy'n ffurfio rhan o'r tîm adnoddau cymunedol.
- 6.16. Er bod gan y cyngor amrywiaeth dda o wasanaethau ar waith ar gyfer pobl hŷn, mae diffygion o hyd o fewn gwasanaethau iechyd meddwl mewn rhai meysydd, megis gofal canolraddol ar gyfer pobl sydd â dementia ysgafn neu ganolig. Bydd y cyngor yn ystyried y mater hwn wrth iddo gynnal y broses o ailfodelu gofal canolraddol. Mae'r gwasanaeth wedi gweld cynnydd da yn y defnydd o dechnoleg gynorthwyol sy'n cefnogi annibyniaeth ar gyfer pobl sydd â dementia, ac mae cynllun cadarn ar waith ar gyfer hyrwyddo'r gwasanaeth hwn yn ystod y flwyddyn nesaf.
- 6.17. Mae cynnydd da yn parhau i gael ei wneud yn y gwaith o ddatblygu model ar gyfer cyd-asesiad rhwng gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn ymwneud ag iechyd meddwl pobl hŷn. Bu datblygiad pellach wrth weithredu cynllunio gofal a thriniaeth a chydlynio gofal ymhlith y tîm iechyd meddwl ar gyfer pobl hŷn.

Meysydd o gynnydd

- Gwelliant yn yr oediadau wrth drosglwyddo gofal;
- Datblygu'r Porth Cymunedol
- Integreiddio gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar
- Trosglwyddo rhwng y timau oedolion a thimau plant

Meysydd i'w gwella

- Gwella'r broses o adolygu perfformiad
- Datblygu model diwygiedig ar gyfer darparu canolfannau dydd

Plant a phobl ifanc

Trosolwg

- 6.18. Gwelwyd tystiolaeth o welliannau sylweddol wrth ddarparu gwasanaethau i blant yn ystod y flwyddyn diwethaf. O ganlyniad mae'r cyngor wedi cael ei ryddhau o'r protocol pryderon difrifol. Gellir

gweld yr arolygiad o wasanaethau plant Castell-nedd Port Talbot a gyhoeddwyd ym mis Ebrill ar wefan AGGCC. Mae'r cyngor wedi llawn ymroddi i gyflawni ei gynllun datblygu ar gyfer gwasanaethau i blant a phobl ifanc, ac i barhau i ddefnyddio'r broses o ddadansoddi anghenion lleol wrth gynllunio a ffurfio gwasanaethau. Bu buddsoddiad cyson a phwrrpasol yn y gweithlu ac mewn adnoddau, ac mae hyn wedi arwain at ddarpariaeth gwasanaethau plant well a mwy cyson.

- 6.19. Mae atgyfeiriadau at y gwasanaeth yn cael eu rheoli gan y tîm derbyn, ac yn 98% o achosion mae'r broses o sgrinio a gwneud penderfyniad yn cael ei gwblhau o fewn 24 awr. Mae nifer yr ailatgyfeiriadau wedi gostwng o 22% i 15%, sy'n dystiolaeth o ymyriadau mwy priodol ac wedi'u targedu. Mae plant mewn angen a'u teuluoedd yn elwa ar dderbyn cymorth gan y tîm o gwmpas y teulu, sy'n sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu deall yn well a bod y gwasanaethau'n cael eu teilwra'n well gyda throsglwyddiad gwell gan y tîm derbyn. Mae'r trefniadau newydd yn cael eu sefydlu, mae llwythi achos yn fwy hydrin ac mae'r holl staff yn deall y prosesau.
- 6.20. Mae'r cyngor yn bwriadu gwella'r gallu i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn trwy gyfrwng y Porth Cyffredin. Yn ogystal, mae amrywiaeth o wasanaethau 'ar gyrion gofal' yn cael eu datblygu er mwyn atal plant rhag cyrraedd y system derbyn gofal lle nad yw hynny'n briodol. Mae hwn yn faes mae'r cyngor wedi ei nodi ar gyfer ei ddatblygu yn ystod y flwyddyn nesaf. Mae angen dadansoddiad pellach o sut y gallai anghenion teuluoedd, yn enwedig y rheiny sydd â phlant hŷn a phobl ifanc, gael eu cefnogi'n gynharach. Mae'r cyngor wrthi'n llunio strategaeth cymorth i'r teulu ac yn edrych ar nifer o wasanaethau cymorth er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn.
- 6.21. Mae plant a phobl ifanc sy'n debygol o fod mewn perygl o niwed yn cael eu hadnabod, ac mae camau priodol yn cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel. Mae'r cyngor wedi ymgymryd â rhaglen hyfforddi helaeth gydag aelodau o'r gweithlu sy'n ymdrin ag amddiffyn plant. Mae hon wedi cynnwys dadansoddi risg a hyfforddiant amlasiantaethol ar gyfer y grŵp craidd, sy'n trafod anghenion unigol mewn perthynas â gweithio gyda phlant sy'n agored i niwed. Er bod cynnydd wedi'i wneud ynglŷn ag ansawdd asesiadau risg, mae AGGCC wedi nodi eu bod yn dal i amrywio. Yn hyn o beth mae'n rhaid sicrhau eu bod yn gyson ar draws pob gwasanaeth. Mae'r cyngor hefyd wedi nodi bod angen mwy o ddilyniant a gwybodaeth well, er mwyn paratoi ar gyfer trafodaethau strategaethol ag asiantaethau partner, sydd weithiau'n betrusgar wrth gytuno i dynnu enwau plant oddi ar y gofrestr amddiffyn plant. Bydd cynnydd ynglŷn â'r mater hwn yn cael ei fonitro yn ystod y flwyddyn nesaf.

- 6.22. Mae'r cyngor yn parhau i wneud cynnydd da wrth hyrwyddo cyfranogiad ar gyfer plant a phobl ifanc. Ar ôl adolygu ei brotocol cyfranogiad, ymgysylltiad ac eiriolaeth, mae'r cyngor wedi sefydlu tîm datblygu perfformiad, ansawdd ac arferion er mwyn llunio a gweithredu cynllun gweithredu a fydd yn darparu'r protocol. Mae swyddog ymgysylltu a chyfranogi wedi cael ei benodi a fydd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc, gan ystyried eu safbwyntiau ar bob agwedd ar ddarparu gwasanaethau.

Blaenoriaethau cenedlaethol allweddol

Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar

- 6.23. Mae'r cyngor wedi bod yn gweithio gyda sefydliadau partner a rhanddeiliaid eraill dros y flwyddyn ddiwethaf, er mwyn datblygu ei ddull o ymdrin ag atal ac ymyrryd yn gynnar. Ymgwymerwyd ag ymarfer mapio'r gwasanaeth a fydd yn cael ei gwblhau bob blwyddyn er mwyn darparu'r wybodaeth a fydd yn arwain bwrdd partneriaeth 'Meddwl am Deulu' wrth ddatblygu gwasanaethau ymhellach.
- 6.24. Bydd drafft y strategaeth cymorth i deuluoedd y mae'r cyngor wedi'i datblygu, er mwyn rhoi cymorth wrth ddarparu gwasanaethau wedi'u targedu ar gyfer plant a theuluoedd, yn sicrhau dull cydgysylltiedig o weithredu trwy'r holl haenau o angen. Mae'r cyngor yn gobeithio ailfodelu nifer o wasanaethau cymorth, er mwyn darparu gwasanaethau wedi'u targedu ar gyfer y plant, y bobl ifanc a'r teuluoedd mewn angen, sydd fwyaf agored i niwed. Mae gwasanaethau 'Y Teulu'n Flaenaf', a gomisiynwyd gan bartneriaeth 'Meddwl am Deulu', ar waith, ac mae contractau newydd wedi cael eu sefydlu trwy ymgorffori gwasanaethau sy'n cynnwys cynadleddau grwpiau teuluol, cymorth i ofalwyr ifanc a chymorth trwy gwnsela ar gyfer teuluoedd.
- 6.25. Mae Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd, sy'n cael ei redeg gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar ran Partneriaid Western Bay, wedi bod yn weithredol ers mis Ebrill 2013, ac mae wedi cael ei adolygu'n ffurfiol yn ddiweddar. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt er mwyn ail-ganolbwyntio ar anghenion strategol gwasanaethau plant Castell-nedd Port Talbot. Mae trefniadau rhanbarthol wedi datblygu'n dda gyda sefydlu'r gwasanaeth maethu a ddechreuwyd ym mis Ebrill 2014, cyn lansio'r Gwasanaeth Maethu Cenedlaethol ym mis Tachwedd 2014. Mae hyn wedi arwain at gydweddu nifer o blant yn addas a'u lleoli ar gyfer cael eu mabwysiadu.
- 6.26. Mae'r broses o reoli perfformiad wedi'i hen sefydlu ar draws y


gwasanaeth, ac mae data perfformiad ar gael yn rhwydd i reolwyr. Mae cyfarfodydd misol yn cael eu cynnal er mwyn dadansoddi tueddiadau a nodi mannau problemus, a mynd i'r afael â nhw. Mae gan staff agwedd gadarnhaol ynglŷn â'r angen i reoli perfformiad, ac maent yn gallu gweld y manteision ar ôl iddynt weld amseroldeb yn gwella dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

- 6.27. Mae'r cyngor yn parhau i weithredu ei fframwaith sicrhau ansawdd, lle mae angen sicrhau bod cysondeb ar draws y gwasanaeth. Mae grŵp gwella perfformiad sydd ag aelodau ar draws y gwasanaeth ar waith, ac mae gwaith y grŵp wrth edrych arferion wedi arwain at rywfaint o gynnydd wrth sicrhau ansawdd a chysondeb darpariaeth y gwasanaethau.

Plant sy'n derbyn gofal

- 6.28. Dylid adolygu'r strategaeth gyfredol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal i sicrhau bod rhagor o bwyslais ar roi cymorth i blant er mwyn iddynt fwynhau lles cadarnhaol a chyflawni eu potensial. Mae'r cyngor yn bwriadu gwella ei weithdrefnau ar gyfer derbyn pobl i ofal ymhellach, a gwella'r cymorth ar gyfer y rhai sydd mewn perygl o fod mewn gofal, y cyfeiriwyd atynt fel pobl 'ar gyrion gofal'. Mae'r trefniadau ar gyfer comisiynu'r holl wasanaethau cymorth yn cael eu hadolygu. Mae hyn yn cynnwys gwaith gydag asiantaethau partner, er mwyn datblygu dealltwriaeth well o'r dull strategol sy'n cael ei ddefnyddio i leihau'r nifer o blant sy'n derbyn gofal. Mae dwy elfen allweddol i hyn – gweithio i ddiogelu trefniadau parhad amgen ar gyfer y rhai sydd eisoes mewn gofal, a sicrhau cymorth o ansawdd da i deuluoedd a rheoli risg er mwyn osgoi bod plant yn gorfod derbyn gofal. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn cyrraedd ei lawn botensial hyd nes y bydd y gwasanaethau ataliol yn gwbl weithredol yn hwyrach yn 2015. Bydd AGGCC yn monitro'r gwaith o weithredu'r gwasanaethau hyn, yn ogystal â'u heffeithiolrwydd, er mwyn llwyddo i gael canlyniadau gwell i blant a'u teuluoedd.
- 6.29. Mae mwyafrif yr achosion o blant sy'n derbyn gofal yn cael eu dyrannu'n briodol, ac adolygwyd parhad yn fwy effeithiol. Gwnaed gwaith sylweddol er mwyn galluogi'r tîm adolygu annibynnol i chwarae rhan fwy gweithgar wrth herio effeithiolrwydd cynlluniau ac i sicrhau ansawdd y trefniadau'n well. Mae hyn wedi arwain at wella amseroldeb yr adolygiadau. Mae AGGCC yn nodi perthynas waith dda rhwng gweithwyr cymdeithasol, teuluoedd a phobl ifanc yn yr adolygiadau. Mae penderfyniadau ynglŷn â throthwyon ar gyfer sbarduno'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn cael eu gwneud mewn ffordd briodol, gan arwain at ostyngiad yn nifer yr achosion sy'n mynd ymlaen i dderbyn gofal. Mae'r cyngor yn priodoli hyn i'r gefnogaeth dda maent yn ei chael gan wasanaethau cyfreithiol, yn ogystal ag i gyngor priodol.

- 6.30. Mae'r cyngor yn datblygu ei strategaeth recriwtio ar gyfer ei wasanaethau maethu, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau maethu'n cael eu datblygu a'u strwythuro mewn ffordd sy'n gallu darparu dewis o leoliadau sefydlog, lleol ac o safon uchel ar gyfer plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion arbenigol neu gymhleth.
- 6.31. Mae dangosyddion perfformiad yn tystio bod gan yr holl blant sy'n derbyn gofal gynllun gofal ar waith, gyda 92% o ymweliadau statudol yn cael eu cynnal o fewn yr amserlen. Mae hyn yn well na'r perfformiad ar gyfer y llynedd.



- 6.32. Mae'r cyngor yn llawn ymwybodol bod y nifer o bobl sy'n derbyn gofal yn parhau i fod yn uchel, ac mae'n gwbl ymroddedig i leihau'r nifer o blant sy'n derbyn gofal. Mae'r nifer hon wedi gostwng rhywfaint o 473 yn 2013-2014 i 461 y flwyddyn hon. Mae dull gweithredu'r cyngor yn cael ei ddylanwadu'n fwyfwy gan ei strategaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, sy'n nodi bwriad y cyngor i gael y canlyniadau gorau posibl ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae'r strategaeth hefyd yn nodi'r targedau ar gyfer lleihau'r nifer o blant sy'n derbyn gofal mewn ffordd ddiogel.

Meysydd o gynnydd

- Mae gwasanaethau sy'n gyson ac yn gynaliadwy yn cael eu darparu, sydd wedi arwain at godi'r protocol
- Mae ymgysylltiad â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd, ac maen nhw'n cael eu cynnwys yn yr holl broses.

Meysydd i'w gwella

- Mynediad at wasanaethau i blant trwy gyfrwng y porth cyffredin.
- Datblygu gwasanaethau ar gyfer pobl sydd 'ar gyrion gofal', yn enwedig plant hŷn
- Adolygu'r gwaith o ddatblygu strategaeth cymorth i deuluoedd
- Lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn ffordd ddiogel, a defnyddio trefniadau parhad amgen.

7. Pa mor dda mae arweinyddiaeth, llywodraethiad a chyfeiriad y cyngor yn hyrwyddo gwelliant mewn canlyniadau a lles ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth

- 7.1. Mae'r cyngor yn bwriadu sefydlu fframwaith sy'n seiliedig ar ganlyniadau er mwyn casglu safbwyntiau plant, rhieni, gofalmwr a gweithwyr proffesiynol, a gweithredu ar y wybodaeth hon. Bydd y fframwaith yn ychwanegu at y gofynion ar gyfer awdurdodau lleol a geir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Mae'r cyngor wedi ymgysylltu ag Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer datblygu'r model hwn.
- 7.2. Mae'r pwyllgor craffu plant a phobl ifanc ac addysg wedi arwain y cyngor wrth iddo ddatblygu model o ragoriaeth ar gyfer craffu cyhoeddus. Mae gweithio gyda'r Ganolfan ar gyfer Craffu Cyhoeddus wedi arwain at wahaniaeth clir rhwng sicrhau bod gan aelodau'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer y broses graffu, a'r swyddogaeth graffu ei hun. Mae tystiolaeth a welwyd gan AGGCC trwy fynychu cyfarfodydd craffu'n dangos bod aelodau'n herio ac yn cynnig cymorth mewn ffordd briodol.
- 7.3. Mae gwasanaethau plant wedi gwneud camau breision wrth wella eu harferion, gan sefydlogi a datblygu eu gweithlu, datblygu arweinyddiaeth gref a thrawsffurfio eu perfformiad. Yn sgil adolygiad cadarnhaol gan gymheiriaid ym mis Medi 2014, a gomisiynwyd trwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, cytunwyd y byddai'r gwasanaeth yn ehangu ei ddyheadau o ddarparu gwasanaeth da i ddarparu gwasanaeth ardderchog. Mae'r cyngor yn cynnal sefydlogrwydd trwy barhau i ddilyn arferion da ar gyfer rheoli ac arwain pobl, fel recriwtio amserol, rhaglen ymsefydlu dda, goruchwyliaeth reolaidd, rheoli perfformiad, cael y presenoldeb uchaf posibl defnyddio lleiaf posibl o weithwyr asiantaeth, cynllunio olyniaeth, cyfathrebu effeithiol ddwy ffordd rhwng staff a rheolwyr a gweithio mewn partneriaeth.

- 7.4. Mae penderfyniad y cyngor i gynnig cytundebau dros dro ar gyfer gweithwyr asiantaeth o fewn gwasanaethau i blant er mwyn cyflenwi swyddi oherwydd salwch staff, yn hytrach na bod â swyddi gwag, wedi gwneud cyfraniad sylweddol i wella dilyniant a chysondeb yr arferion gwaith. Mae hyfforddiant ymsefydlu gwell, hyfforddiant perthnasol, a chanllawiau i staff wedi ychwanegu at ddatblygiad cadarnhaol y gweithlu, ac wedi arwain at wella moral staff. Fodd bynnag, nodwyd bod rhywfaint o fannau gwan mewn rhai timau a bod angen cefnogi datblygiad y grŵp rheoli tîm ymhellach. Cafodd y materion hyn eu nodi gan uwch-reolwyr, ac mae trefniadau cefnogol ychwanegol yn cael eu rhoi ar waith. Er bod gweithwyr yn deall y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau o fewn timau yn fwy eglur o lawer, roedd anghysondeb yn y trefniadau hyn ar draws y gwasanaeth. Gallai hyn effeithio ar effeithiolrwydd goruchwyliaeth gyson a'r broses o wneud penderfyniadau. Yn ystod yr arolygiad diweddar nid oedd tystiolaeth o'r bwlio a'r diwylliant gormesol a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol.
- 7.5. Mae'r panel rhianta corfforaethol yn parhau i gael ei gadeirio gan arweinydd y cyngor, ac mae cynrychiolaeth gref o'r cabinet a'r cyngor ehangach yn aelodau ohono. Mae hyn wedi codi ei broffil ar draws yr awdurdod, a gwnaed rhywfaint o gynnydd o ran gwella canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae asiantaethau partner yn ymgysylltu'n dda o ran strategaeth ac yn dangos dealltwriaeth dda o'r materion cymhleth sy'n wynebu'r awdurdod. Er bod rhywfaint o anghysondeb rhwng effeithiolrwydd y trefniadau strategol a'r trefniadau gweithredol, roedd tystiolaeth o welliant o ran cydweithio. Mynegwyd cefnogaeth gref i'r ymrwymiad sydd ei angen er mwyn sicrhau bod agenda o welliant parhaus. Derbynnir bod yr awdurdod yn wynebu amgylchedd economaidd heriol, ynghyd â lefelau uchel a pharhaus o angen, yn ogystal â chael y lefel uchaf o bobl sy'n derbyn gofal yng Nghymru.
- 7.6. Roedd y flaenoriaeth glir a roddwyd i weithredu'r cynllun gwella yn dystiolaeth o'r gefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gref a roddwyd i'r cynllun. Dangosodd yr aelodau etholedig a'r tîm rheoli corfforaethol ddealltwriaeth gyffredin o'r cyfeiriad a'r penderfyniad sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn effeithiol wrth gefnogi canlyniadau gwell ar gyfer plant a phobl ifanc. Roedd aelodau etholedig yn wybodus ynghylch perfformiad ac yn gallu nodi meysydd sydd o hyd angen eu gwella. Roedd trefniadau craffu wedi cael eu datblygu a'u cryfhau ymhellach.
- 7.7. Mae gan y cyngor osodiadau cyllidol a phrosesau cynllunio ariannol effeithiol ar waith, sy'n cael eu rheoli'n dda, er mwyn cyflawni'i gynllun ariannol tymor canolig. Mae aelodau etholedig yn chwarae rhan gyflawn yn y gwaith o gynllunio, pennu a monitro'r gyllideb, a chraffu ar y broses o'i chyflawni.

- 7.8. Ers mis Awst 2014, mae'r cyngor wedi datblygu gweithdrefn newydd ar gyfer ymdrin â chwynion a chynrychioliadau. Mae cyflwyno'r weithdrefn newydd wedi rhoi'r cyfle i hyfforddi pob aelod o staff, ac i ddatblygu cronfa ddata newydd ar gyfer cwynion sy'n darparu'r cyngor â gwybodaeth am berfformiad a gwybodaeth ystadegol.

Meysydd o gynnydd

- Sefydlogi gweithlu gwasanaethau i blant
- Cefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol

Meysydd i'w gwella

- Sefydlu fframwaith sy'n seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer gwasanaethau i blant
- Effeithiolrwydd gweithdrefn gwyno ddiwygiedig y cyngor.